



Ionawr 2015

Holiadur Gwybodaeth Pysgotwyr


Mae'r Holiaduron Gwybodaeth Pysgotwyr nawr wedi eu cwblhau a bydd yr adroddiad ar gael y mis hwn. Cyfwelwyd chwedeg saith o bysgotwyr gyda gwybodaeth am 77 o gychod a 337 o safleoedd pysgota cyfredol a hanesyddol. Cyfwelwyd naw ar hugain o bysgotwyr yng ngogledd Cymru, 11 yng nghanolbarth Cymru a 26 yn ne Cymru. Diolch yn fawr iawn i bob pysgotwr a gymerodd ran, roedd eich cyfraniad yn amhrisiadwy!



Cramenogion

Cranc coch – *Cancer pagurus*

Fforwm crancod newydd i ddefnyddwyr gwyddoniaeth!



Rydym nawr yn cynnal fforwm *Cancer pagurus*. Mae'n fforwm sydd â mynediad agored ac yn un groesawgar i unrhyw un sy'n gweithio gyda *C. pagurus*. Y bwriad yw creu rhwydwaith gymorth ar gyfer ymchwilwyr a rheolwyr *C. pagurus* drwy ganolbwynt ar y rhyngwrwyd. Gobeithiwn ei gwneud yn haws i gael mynediad i wybodaeth, gwella dealltwriaeth wyddonol a hwyluso cydweithio gwyddonol. Mewn sefydliadau ymchwil o amgylch y Deyrnas Unedig, yr Iwerddon, Ffrainc a Norwy mae rhai prosiectau cyffrous iawn yn digwydd ar *C. pagurus*, er nad oes dim un ffordd o wybod beth, ymhle a gan bwy. Drwy ddefnyddio'r fforwm byddwn yn gallu gadael i ymchwilwyr a rheolwyr wybod am y gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd a pha waith gwyddonol sydd angen ei wneud. Gobeithiwn wella

cyfathrebu oddi fewn i'r gymuned wyddonol er mwyn symud y gwaith ymchwil ymlaen ar gyfer y rhywogaeth bwysig hon i'r diwydiant pysgota!

I ymuno â'r fforwm, ewch i: <http://cancerpagurus.freeforums.net/>

Am fwy o wybodaeth am y fforwm hon, cysylltwch â Jodie Haig: j.haig@bangor.ac.uk

Mae astudiaeth maint pan fônt yn aeddfed yn mynd rhagddi!

Rydym wedi trafod yr astudiaeth hon mewn cylchlythyrau blaenorol ac rydym nawr yn camu ymlaen. Rydym wedi casglu crancod o amgylch arfordir Cymru ac maent yn y rhewgelloedd tra rydym yn casglu'r ychydig samplau olaf. Bydd y samplau hyn yn cyfrannu tuag at astudiaeth ehangach o amrywiaeth ranbarthol mewn maint pan fônt yn aeddfed i'r cranc coch, *Cancer pagurus*.

Fe gasglodd Oliver Tully samplau o grancod o Fae Galway, yn yr Iwerddon, ym mis Rhagfyr 2014 a'r wythnos diwethaf buom yn ymweld â'r Sefydliad Morol i'w prosesu (276 o grancod wedi'u prosesu ar gyfer yr astudiaeth). Bwriada Oliver gymryd y canlyniadau hyn ar gyfer trafodaeth yn y gweithgor crancod ICES nesaf.



Jodie Haig (Prifysgol Bangor) gyda Oliver Tully (y Sefydliad Morol) yn siarad am grancod yn y Sefydliad Morol yn Galway (chwith); Julia Pantin a Niamh Ryan yn mesur a phrosesu crancod yn y labordy gwlyb yn y Sefydliad Morol (de).

Ein cydweithwyr ar hyn o bryd sy'n astudio maint y cranc coch, *Cancer pagurus* pan fônt yn aeddfed yw:

Matthew Coleman, Kate Walker & Michael Bell, ICIT, Prifysgol Heriot-Watt, Campws Orkney, yr Alban.

Laura Johnson, Gorsaf Forol St. Abbs, yr Alban.

Michael Roach a Mike Cohen, Prifysgol Hull a grŵp Diwydiant Pysgota Holderness, Sir Efrog, Lloegr.

Emma Pearson a Paul Hart, GAP 2 Project, Prifysgol Caerlŷr, Caerlŷr, Lloegr.

Oliver Tully, Sefydliad Morol, Galway, Iwerddon.

Isobel Bloor, Prifysgol Bangor, Ynys Manaw.

Rydym yn falch o weithio gyda'r ymchwilwyr rhyfeddol hyn o'r Deyrnas Gyfunol a gwledydd cyfagos i greu'r cydweithrediad cyntaf o'i fath! Bydd y canlyniadau yn llywio meintiau lleiaf glanio priodol ac yn darparu data gwerthfawr ar gyfer asesiadau stoc. Yn ddelfrydol, dylid cynnal ymchwil maint pan fônt yn aeddfed bob 3-4 mlynedd ar stociau pysgota masnachol. Bydd ein dulliau manwl, sy'n cyfuno technegau morffometrig, asesiad gweledol a thechnegau dilysu histolegol yn sicrhau bod ymchwil yn y dyfodol yn llyfn, yn ddarbodus ac effeithiol. Byddwn hefyd yn cynhyrchu canllaw labordy eglurhaol: "Protocol ar gyfer asesu maint pan fônt yn aeddfed ar gyfer *Cancer pagurus*". Bydd hwn yn offeryn gwerthfawr ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, gan wneud y gwaith gwyddonol yn hawdd i'w wneud ac yn hygyrch i bawb.

Bydd adroddiad cynhwysfawr ar fioleg atgenhedlu *Cancer pagurus* ar gael ar-lein cyn mis Mai 2015.

Bydd y canllaw gweledol ar gael ym mis Mawrth 2015.

I gael mwy o wybodaeth am yr astudiaeth hon a'r gwaith cydweithio, cysylltwch â Jodie Haig: j.haig@bangor.ac.uk

Corgimwch – *Palaemon serratus*



10 Rhag 14

19 Ion 15

Dioddefodd y casglu data ar gyfer y prosiect corgimwch Bae Ceredigion gyfres o ergydion yn ystod y stormydd ym mis Rhagfyr, ond daeth y flwyddyn newydd â pheth tywydd mwy sefydlog, sy'n golygu fod samplu ar y môr ym Mae Ceredigion wedi dechrau ar gyfer tymor pysgota 2014/15. CPUE data Bydd data CPUE (Dalfa Fesul Uned Ymdrech) o arsylwadau ar fwrdd y cwch yn adeiladu ar ddata dalfeydd cydraniad uchel sy'n cael eu dadansoddi yn labordai'r Gwyddorau Eigioneg ym Mhorthaethwy. Mae'r prosiect yn dechrau taflu goleuni ar y cwestiynau allweddol a'r heriau sy'n wynebu'r bysgodfa (gweler adroddiad Gwyddoniaeth Pysgodfeydd a Chadwraeth Rhif 39). Bydd y prosiect yn rhoi gwybodaeth am arferion pysgota cynaliadwy gyda golwg gytbwys drwy gyfuno canfyddiadau biolegol gyda dadansoddiad cost a budd economaidd-gymdeithasol.



Rhidyll 10mm - beth yw'r maint rhidyll gorau posibl i amddiffyn potensial atgenhedlu'r stoc? Beth fyddai hyn yn ei olygu i fusnesau pysgota?

Moroedd meirwon lonawr - Dalfa (4 kg) un diwrnod o bysgota ar yr 20fed Ionawr. Golygodd stormydd y gaeaf ddifrod i offer trwm a cholli enillion.

Mae'r prosiect hefyd yn adolygu yn systematig wybodaeth mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid ar y gorgimwch, *Palaemon serratus*, rhywogaethau sy'n perthyn yn agos a'u rôl yn yr ecosystem ehangach. Mae casgliad o wybodaeth y bydd y prosiect yn ei greu yn gweithio tuag adroddiad cyn asesiad y Cyngor Stiwardiaeth Morol (MSC), a fydd ar gael ym mis Mai.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r swyddogion prosiect (sydd yn Aberystwyth):

Jack Emmerson j.emmerson@bangor.ac.uk a Georgia Robson g.robson@bangor.ac.uk

Cimwch – *Homarus gammarus*

Ffrwythlondeb a Dadansoddiad CHN (Carbon, Hydrogen a Nitrogen)

Casglwyd wyau ac aelodau nofio sengl y cimwch Ewropeaidd (*Homarus gammarus*) yn ystod misoedd yr haf oddi ar arfordir Sir Benfro i astudio aeddfedrwydd, ffrwythlondeb (nifer yr wyau) ac ansawdd wyau cimychiaid benyw.

Casglwyd samplau o wyau ac aelodau nofio o 52 o fenywod. Mae'r aelodau nofio eto i gael eu prosesu ac yn cael eu cadw ar gyfer astudiaethau aeddfedrwydd pellach. Roedd yr wyau o bob segment (pob set o aelodau nofio) o bob cimwch yn cael eu pwyso ar wahân, yna cyfrif is-samplau i gael amcangyfrif o ffrwythlondeb y cimychiaid yn ôl eu maint. Tynnwyd llun sampl o wyau fesul segment o dan ficrosgop a mesurwyd man y llygad a diamedr yr wy. Mae hyn er mwyn darparu mynegai o ddatblygiad wy yn ystod yr haf.

Mae'r holl wyau cimwch a gasglwyd yn ystod yr haf wedi eu prosesu ac ar hyn o bryd yn cael dadansoddiad CHN (Carbon, Hydrogen a Nitrogen). Bydd hyn yn penderfynu ar eu cyfansoddiad

elfennol ac yn rhoi gwybodaeth i ni am ansawdd yr wyau sy'n cael eu cynhyrchu gan y fenyw.



Ffigur: Wyau cimwch wedi'u gosod allan yn barod ar gyfer prosesu; wy cimwch o dan y microsgop; Hannah Finch-Saunders yn prosesu wyau yn y labordy.

